GWEITHREDU CYNLLUNIAU GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL YNG NGHYMRU

Elizabeth Alice May

Drafft: Traethawd a gyflwynwyd i Brifysgol Bryste yn unol â gofynion y radd MSc

mewn Ecoleg a Rheolaeth o Amgylchedd Naturiol, yn y Gyfadran Wyddoniaeth

Medi 2002

CRYNODEB

Gweithredir ymrywmiad Cymru i fioamrywiaeth yn bennaf trwy'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) ar lefel yr awdurdod cynllunio lleol (ACLl).

Yn Awst 2002 archwiliodd dau arolwg i gynnydd gweithredu CGBLl yng Nghymru. Dychwelodd naw deg tri y cant, 22 allan o 24 awdurdod archwiliad swyddogion y CGBLl. Cwblhaodd dau ddeg saith o aelodau Fforwm y CGBLl holiaduron. Mae'r canlyniadau hyn felly wedi eu seilio ar sampl hynod o ddilys o'r arbenigwyr yn y maes.

Mae CGBLl, Cynlluniau Gweithredu Cynefin a Rhywogaeth yn cael eu datblygu a'u gweithredu. Mae yna lefel uchel o hybu bioamrywiaeth, oedd yn ôl y swyddogion a'r partneriaid wedi cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth. Mae partneriaethau CGBLl wedi eu sefydlu ym mhob ACLl. Mae proses y CGBLl wedi cynyddu'r cydweithio efo grwpiau cadwraeth natur. Y farn gyffredinol oedd fod bioamrywiaeth wedi gwella. Felly, yng Nghymru mae'r broses CGBLl yn dod yn ei blaen yn dda.

Mae problemau efo staffio yn gysylltiedig â chyllido wedi arafu cynnydd y CGBLl. Rhydd awdurdodau lleol gydnabyddiaeth annigonol i fioamrywiaeth. Mae prinder gwybodaeth am fonitro bioamrywiaeth a'r diffyg Canolfannau Cofnodi Bioleg Lleol Gymreig yn ffactorau negyddol pellach.

Partneriaid CGBLl sy'n darparu'r prif gefnogaeth i gynnydd CGBLl.

Mae'r CGBLl yn effeithio ar bolisi cynllunio mewn nifer o awdurdodau yn bennaf trwy Gynlluniau Datblygu Unedol. Mewn ychydig o achosion caiff penderfyniadau cynllunio eu dylanwadu gan CGBLl, a'u hystyried gan ecolegwyr. Caiff polisïau eraill awdurdod lleol eu heffeithio.

Roedd sgiliau personol a rheolaethol swyddogion y CGBLl yn cael eu prisio'n uchel gan bartneriaid CGBLl.